Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach
National Safeguarding Service
NHS Safeguarding for a Safer Wales

GIG CYMRU | NHS WALES
DIOGELU RHWYDWAITH | SAFEGUARDING NETWORK

# Canllawiau i Blant sy'n beichiogi cyn eu pen-blwydd yn 13 oed

Mai 2026

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Rhagair | 1 |
| 2. Cyflwyniad | 2 |
| 3. Diffiniadau | 2 |
| 4. Camau Ymateb Cyntaf i Ymarferwyr | 3 |
| 5. Rolau a chyfrifoldebau | 4 |
| 6. Gweithdrefn/Proses/Protocol | 4 |
| 7. Terfynu beichiogrwydd (TOP) mewn plant | 7 |
| 8. Parhau â'r Beichiogrwydd | 11 |
| 9. Ôl-ofal | 13 |
| 10. Gofynion hyfforddiant / cymhwysedd | 13 |
| 11. Monitro Cydymffurfiaeth | 14 |
| 12. Gwybodaeth Ddefnyddiol | 14 |
| Atodiad 1: Siart Lif y Protocol | 15 |
| Atodiad 2: Cydsyniad | 16 |
| Atodiad 3: Enghraifft o Arfer Dda | 17 |

# 1. Rhagair

Cychwynnwyd y canllawiau hyn fel amcan dysgu hanfodol yn dilyn achos arwyddocaol diweddar a oedd angen canllawiau barnwrol gan yr uchel lys. Roedd llywio'r llwybr cyfreithiol amlasiantaethol hwn yn faes cwbl ddieithr. Yn sgil yr hyn a ddysgwyd o'r achos, cydnabuwyd yn gyflym fod angen canllaw cenedlaethol.

Mae amseroldeb yn hollbwysig yn yr achosion hyn, sy'n anghyffredin ond sy'n newid bywydau. Rhaid i lesiant y plentyn beichiog fod yn rhan ganolog o unrhyw benderfyniad a wneir bob amser.

Wrth gynhyrchu'r canllawiau hyn, ffurfiwyd grŵp tasg a gorffen gydag arbenigedd amlddisgyblaethol ac aml-asiantaethol, daeth yr anawsterau ymarferol o ran cael mynediad at wasanaethau terfynu beichiogrwydd yn amlwg. Mae angen sicrhau y ceir mynediad hawdd ac amserol i'r gwasanaethau hyn er lles pennaf y plentyn beichiog. Dylid ystyried y prosesau a'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pob cyfnod cario oherwydd eu natur anrhagweladwy ac amrywiol.

Ar hyn o bryd, nid oes gan ddarparwyr erthyliad y tu allan i'r GIG drwydded i ddarparu gwasanaethau terfynu beichiogrwydd i blant o dan 13 oed yng Nghymru. Mae hyn yn arwain at anawsterau logistaidd, ar y cyd ag adnoddau staff sydd wedi'u lleihau'n sylweddol i ddarparu triniaeth derfynu lawfeddygol yn y grŵp oedran hwn a hyd at yr ail drimis. Mae'n codi heriau ynghylch gofal sy'n nes at y cartref ac anghydraddoldebau o ran y ddarpariaeth ledled Cymru. Mae'n grŵp oedran lle mae'n debygol y bydd terfynu llawfeddygol yn cael ei ystyried yn amlach oherwydd pryder ynghylch sut y bydd y plentyn yn goddef y boen a'r gofid seicolegol yn sgil terfynu meddygol o gymharu â thriniaeth o dan Anesthetig Cyffredinol.

Dylid ystyried a wybuwyd bod gan y plentyn bryderon diogelu, a hynny'n flaenorol neu ar y pryd, neu a allai fod yn blentyn sy'n derbyn gofal. Gall hyn gymhlethu'r broses gydsynio a phenderfynu ymhellach, ac mae angen achub y blaen ar hyn i gyd er mwyn sicrhau bod penderfyniad amserol yn cael ei wneud.

Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen wedi tynnu sylw at rai arferion rhagorol mewn rhannau o Gymru. Un enghraifft o hyn yw Tîm Jig-so Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, sy'n darparu cymorth i fenywod a theuluoedd agored i niwed.

>> Gweler Atodiad 3
Enghraifft o Arfer Dda.

Y neges allweddol o'r gwaith hwn yw pwysigrwydd hanfodol gwneud penderfyniadau amserol (hynny yw, ymhen dyddiau, nid wythnosau), am fod y risgiau'n cynyddu i'r plentyn beichiog bob dydd, ac ni ddylid tanamcangyfrif hyn.

**Ar hyn o bryd, nid oes gan ddarparwyr erthyliad y tu allan i'r GIG drwydded i ddarparu gwasanaethau terfynu beichiogrwydd i blant o dan 13 oed yng Nghymru.**

# 2. Cyflwyniad

Bwriad y Canllawiau hyn yw cynorthwyo ymarferwyr iechyd i reoli plant o dan 13 oed sydd wedi beichiogi.

O dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, ni ystyrir bod plant o dan 13 oed yn abl nac yn gymwys i roi cydsyniad i unrhyw fath o weithgarwch rhywiol, ac ystyrir rhyw treiddiol yn drais statudol. Mae hyn yn parhau i fod yn wir hyd yn oed os mai plentyn yw'r cyflawnwr ei hun.

Wrth ystyried teimladau'r plentyn o ran parhau â'r beichiogrwydd neu derfynu'r beichiogrwydd (TOP), ni ddylai ymarfer ail-drawmateiddio'r plentyn, ond dylai bob amser flaenoriaethu diogelu'r plentyn a'i ofal meddygol uniongyrchol er mwyn atal niwed ymhellach.

Yn anaml iawn y mae plant o dan 13 oed yn beichiogi, ac mae hyn yn creu heriau o ran hyfforddi staff a sicrhau bod eu gwybodaeth yn gyfredol. Nod y canllawiau hyn yw cynnwys yr holl wybodaeth y bydd angen i chi ei gwybod.

>> Atodiad 1: Siart Lif y Canllawiau, trosolwg syml.

**Mae'n hollbwysig bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd amserol am fod y cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r triniaethau'n cynyddu bob dydd wrth i'r beichiogrwydd fynd yn ei flaen.**

# 3. Diffiniadau

Ystyr Terfynu Beichiogrwydd (TOP) yw pan ddaw beichiogrwydd i ben fel nad yw'n arwain at enedigaeth plentyn.

**Mae terfynu'n gyfreithlon yng Nghymru, Lloegr a'r Alban cyn belled â'i fod yn bodloni telerau Deddf Erthylu 1967. Mae'r gyfraith yn caniatáu i feddygon ddod â beichiogrwydd i ben os ydynt yn credu'r canlynol:**

- Bod cyfnod cario'r beichiogrwydd heb gyrraedd 24 wythnos, a byddai parhau â'r beichiogrwydd yn peri mwy o risg i iechyd corfforol neu feddyliol y fenyw (plentyn, yn yr achos hwn) neu ei phlant presennol nag y byddai pe bai'r beichiogrwydd yn cael ei derfynu; neu
- Fod angen y terfyniad er mwyn atal anaf parhaol difrifol i'r fenyw (plentyn yn yr achos hwn), neu er mwyn achub ei bywyd; neu
- Fod risg sylweddol, pe bai'r babi'n cael ei eni, y byddai'n dioddef annormaledd meddyliol neu anabledd corfforol difrifol.

# 4. Camau Ymateb Cyntaf i Ymarferwyr

1. Cadarnhau'r Beichiogrwydd

↓

2. Cofnodi'r manylion a gynigiwyd gan y plentyn mewn perthynas â thrais, a hynny air am air

↓

3. Gwneud Atgyfeiriad Diogelu Ar Unwaith

↓

4. Rhoi Gwybod i'r Meddyg a Enwir a'r Fydwraig a Enwir ar gyfer Diogelu

↓

5. Sicrhau bod Cyfarfod Strategaeth yn digwydd cyn pen 24 awr

# 5. Rolau a chyfrifoldebau

**Dyletswydd yr Ymarferydd cyntaf sy'n dod i wybod bod plentyn o dan 13 oed wedi beichiogi yw rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am y trais statudol hwn.**

- Mae **Gofal Cymdeithasol Plant** yn gyfrifol am drefnu cyfarfod strategaeth ac am ddiogelu'r plentyn.
- Mae'r **heddlu'n** gyfrifol am unrhyw ymchwiliad troseddol ac am roi gwybod am yr angen i gael samplau fforensig a'r math o samplau gan ddefnyddio eu Harchwiliwr Troseddau Rhywiol (SOE) i gynghori'n briodol. Bydd yr heddlu'n ymateb i bryderon ynghylch niwed sydd ar ddigwydd.
- Byddai terfyniad yn cael ei drefnu gan **GIG Cymru**, gan ystyried egwyddor gofal yn agos at y cartref.
- Mae'r **Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)** yn gyfrifol am archwiliadau meddygol acíwt ar gam-drin plant yn rhywiol. Dilynwch y llwybr SARC lleol ar gyfer y llwybr Cam-drin Plant yn Rhywiol (CSA). Os oes hanes o gam-drin rhywiol yn yr wythnos ddiwethaf, mae angen gwneud atgyfeiriad brys i'r SARC.
- Mae'r **Gwasanaethau Iechyd** yn gyfrifol am asesiadau iechyd meddwl a chorfforol gan gynnwys asesu alluedd.
- Dylai **Penaethiaid Diogelu Corfforaethol/Gweithwyr Proffesiynol a Enwir o fewn y Gwasanaethau Iechyd** drefnu sesiynau ôl-drafod a goruchwylio i gefnogi'r staff iechyd dan sylw.

# 6. Gweithdrefn/Proses/Protocol

Yn achos beichiogi mewn plentyn o dan 13 oed, mae Dyletswydd i Adrodd am bryderon i'r awdurdod lleol (Tîm Diogelu Plant Awdurdod Lleol perthnasol), ac mae'n ofynnol i weithwyr proffesiynol ddilyn y siart lif briodol (Atodiad 1). Mae'r cwestiynau sydd wedi'u hymgorffori yn y siart lif yn annog asesiad holistaidd sy'n ystyried y ffordd orau o amddiffyn y plentyn beichiog.

Gall nifer o weithwyr proffesiynol gwahanol weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf i blentyn sy'n credu y gall fod yn feichiog, neu unrhyw un sydd â chyfrifoldeb am y plentyn. Er mwyn deall yr hyn a ddigwyddodd, a oes risgiau parhaus i'r plentyn neu i blant eraill, a barn y plentyn am y beichiogrwydd. Dylai'r gweithiwr proffesiynol hwn ofyn y cwestiynau canlynol (gan ochel rhag achosi trawma pellach i'r plentyn neu ofyn cwestiynau arweiniol a allai ragfarnu ymchwiliad troseddol yn y dyfodol):

- Cadarnhau demograffeg y plentyn (enw, cyfeiriad, dyddiad geni, manylion cyswllt).
- Pennu a yw'r plentyn yn derbyn gofal neu mewn gofal?
- Pwy sydd â chyfrifoldeb rhiant?
- Pwy sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol gyda'r plentyn? Cofnodi enw, cyfeiriad, dyddiad geni, manylion cyswllt.

- Pryd y digwyddodd hyn?
- Ble y digwyddodd?
- Sut mae'r plentyn yn gwybod ei fod yn feichiog?
- A yw gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi cadarnhau'r beichiogrwydd?
- Oes gan y plentyn unrhyw anafiadau, neu ydy'r plentyn mewn poen ar adeg y sgwrs?
- A yw'r plentyn wedi profi unrhyw fath o gyswllt rhywiol yn ystod y 7 diwrnod diwethaf?

## Aseswch:

- A oes risg uniongyrchol i'r plentyn?
- A oes angen gofal meddygol brys ar y plentyn?

## Camau Gweithredu Dilynol

- Trafodaeth gynnar gyda Phediatregydd o'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC), gan sicrhau gofal cydgysylltiedig â gwasanaethau Pediatreg lleol.
- Cysylltu â'r Fydwraig Arweiniol ar gyfer Diogelu, a fydd yn trefnu sgan uwchsain (USS) cyn pen 24 awr.
- Cysylltu â'r Meddyg a Enwir ar gyfer Diogelu.
- Nodi pwy yw'r oedolyn sy'n cefnogi'r plentyn hwn.

**! Peidiwch â gofyn unrhyw gwestiynau ychwanegol mewn perthynas â'r datgeliad.**

Bydd y cwestiynau a restrir uchod yn darparu digon o wybodaeth i ystyried unrhyw risg uniongyrchol o niwed i'r plentyn hwnnw neu i blant eraill.

Dylai unrhyw wybodaeth a ddarperir gan y plentyn a/neu ei ymatebion i'r cwestiynau a ofynnir gael eu cofnodi air am air gan yr aelod staff. Sicrhewch fod gan y plentyn y cyfle i siarad â gweithwyr proffesiynol ar ei ben ei hun.

**Sylwch, os yw plentyn yn siarad yn agored ac mae'n awyddus i siarad, peidiwch â cheisio rhoi terfyn ar y sgwrs – yr unig beth sydd ei angen yw cofnodi'r hyn mae'n ei ddweud, a hynny air am air.** Gwnewch yn siŵr bod y plentyn yn teimlo bod rhywun yn gwrando arno. Pan fydd y plentyn wedi gorffen siarad, gadewch iddo stopio, a pheidiwch â gofyn cwestiynau dilynol os yw'r pwyntiau uchod wedi cael eu crybwyll.

Dylai diogelu'r plentyn a gofal meddygol brys ar ei gyfer gael blaenoriaeth dros bob cam gweithredu arall, a dylid trin pob plentyn mewn ffordd holistaidd sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gydag asiantaethau'n cydlynu eu gwaith ar y cyd.

> **Rhaid atgyfeirio unrhyw blentyn sydd wedi beichiogi pan oedd o dan 13 oed (hyd yn oed os mai dim ond ychydig ddyddiau cyn ei ben-blwydd yn 13 oed) ar unwaith at Wasanaethau Cymdeithasol Plant a threfnu trafodaeth strategaeth cyn pen 24 awr.**

Dylid estyn y **Gwahoddiad i'r Cyfarfod Strategaeth** (yr awdurdod lleol yw'r brif asiantaeth) i'r gweithwyr proffesiynol canlynol bob amser (dylai gweithwyr proffesiynol wneud pob ymdrech i fod yn bresennol, ond os nad oes modd iddynt wneud hynny, dylent naill ai anfon cynrychiolydd addas neu gyflwyno gwybodaeth a barn berthnasol yn ysgrifenedig).

- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant – awdurdod lleol
- Yr Heddlu
- Y Meddyg a Enwir ar gyfer Diogelu Plant
- Yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn ysgol y plentyn
- Meddyg Teulu'r Plentyn
- Pennaeth Diogelu'r Bwrdd Iechyd neu ei gynrychiolydd
- Cynrychiolydd Plant sy'n Derbyn Gofal y gwasanaeth iechyd os yw'r plentyn yn derbyn gofal
- Cynrychiolydd Nyrsio Iechyd Cyhoeddus (nyrs ysgol)
- Un o Weithwyr Proffesiynol Iechyd SARC
- Y Fydwraig a Enwir ar gyfer diogelu
- Cynrychiolydd o'r tîm obstetreg/gynaecoleg
- Nyrs Iechyd Rhywiol
- Aelod o Dîm Diogelu BPAS

**Os yw'r plentyn yn derbyn gofal ac wedi'i leoli mewn ardal letyol yng Nghymru, rhaid bod cyfathrebua chynrychiolaeth gan yr awdurdod lleol/y gwasanaeth iechyd sydd wedi lleoli'r plentyn.**

Dylai'r cyfarfod strategaeth geisio mynd i'r afael â'r pwyntiau canlynol a chytuno ar gynllun cymorth clir. Efallai y bydd angen trafodaeth strategaeth ddilynol os oes angen ymchwiliadau neu wybodaeth bellach i lywio'r broses benderfynu. Dylai camau gweithredu fod yn CAMPUS a chael eu dyrannu i weithiwr proffesiynol a enwir.

### Ystyriaethau'r Cyfarfod Strategaeth:

- Beth yw'r materion diogelu y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw yn y tymor byr a chanolig ar gyfer y plentyn hwn ac unrhyw blant eraill sydd mewn perygl?
- Beth ddigwyddodd i'r plentyn?
- A oes unrhyw risgiau parhaus, gan gynnwys ystyried camfanteisio'n rhywiol ar blentyn?
- Pwy yw cyflawnwr honedig y gamdriniaeth? Neu pwy sydd ymhlith y cyflawnwyr posibl?
- A oes sawl cyflawnwr?
- Ai plentyn arall yw'r cyflawnwr ac a yw'r plentyn arall yntau'n ddioddefwr? Ystyriwch a allai unrhyw blant eraill fod mewn perygl hefyd.
- Ydy hi'n ddiogel i'r plentyn fod gartref?
- Dylid trefnu archwiliad colposgopi hanesyddol os mai terfyniad yw'r llwybr a ddewisir (er mwyn cael yr ail set o swabiau Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol yn dilyn terfyniad os oes angen)
- Pwy sy'n gallu cefnogi'r plentyn drwy'r broses benderfynu.
- Dylid ystyried archwiliad meddygol amddiffyn plant cyfannol.
- Ystyriwch gymorth seicolegol i'r plentyn drwy gydol y broses.

**Ystyriaethau Cyfreithiol**

Os yw'r plentyn yn destun Gweithdrefnau Diogelu Plant ac nad ystyrir bod y plentyn yn gymwys yn ôl safonau Gillick, gellir gwneud cais i isadran deulu'r uchel lys i wneud y penderfyniad yn brydlon. Ni ddylai'r penderfyniad gael ei wneud gan ymarferydd gofal iechyd. Os ystyrir bod angen cyngor cyfreithiol, e.e. nid oes oedolyn priodol i gefnogi proses benderfynu'r plentyn, dylid cyflwyno **atgyfeiriad brys i'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg (Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)). Mae penderfyniad amserol yn hollbwysig i'r plentyn, felly mae'n rhaid gwneud cyn pen 24 awr** er lles pennaf plentyn, ac er mwyn gwarchod enw da'r bwrdd iechyd.

# 7. Terfynu beichiogrwydd (TOP) mewn plant

Os yw'r plentyn yn gymwys i gydsynio ac mae'n dymuno parhau â'r beichiogrwydd, dylid ei gyfeirio at y tîm bydwreigiaeth arbenigol ar gyfer menywod y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ar gyfer gofal cynenedigol a gofal dan arweiniad ymgynghorydd. Os nad yw'n gymwys, ystyriwch pwy all wneud y penderfyniadau hyn drosto, gan gynnwys pwy sydd â chyfrifoldeb rhiant. Pa addasiadau rhesymol y gallai fod eu hangen?

**Ystyriaethau:**

- **A yw'r plentyn yn gymwys i benderfynu** a fydd am derfynu'r beichiogrwydd, a thrwy ba ddull? (Gweler Atodiad 2). Mae ystyried pa weithiwr proffesiynol a ddylai asesu hyn yn bwysig yn ôl y gyfraith.
- Mae angen trefnu sgan uwchsain ar frys i gadarnhau beichiogrwydd normal yn y groth.
- A oes unrhyw faterion iechyd meddygol neu feddyliol ychwanegol (gan gynnwys cyfraniad Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a allai fod yn berthnasol?
- A oes gan y plentyn unrhyw anghenion addysgol arbennig, neu bryderon cymdeithasol neu emosiynol ehangach?
- **Pwy a all gefnogi'r plentyn** i wneud y penderfyniad a'r dewisiadau dilynol, fel dull terfynu'r beichiogrwydd?
- A yw lles pennaf y plentyn yn flaenoriaeth i'r rhiant neu'r gofalwr, neu a oes pryder y gallent fod yn gorfodi'r plentyn i ddilyn cwrs gweithredu penodol neu oes pryderon ynghylch ei allu i wneud penderfyniad er lles pennaf y plentyn?
- Pan nad yw plentyn a rhiant yn gallu cydsynio, neu os oes pryderon nad yw'r rhiant yn cynghori'r plentyn er ei les pennaf, efallai y bydd angen troi at adran deulu'r uchel lys i wneud penderfyniad terfynol. (Gweler Adran 6 – atgyfeiriad coch brys i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC).
- **Beth yw hyd cyfnod cario amcangyfrifedig y beichiogrwydd?** Dyma'r cyfnod ers diwrnod cyntaf mislif diwethaf y plentyn. Weithiau ceir gwaedu yn gynnar yn y beichiogrwydd a all efelychu mislif, a phan fydd mislif yn afreolaidd, gall y dyddiad hwn fod yn annibynadwy. Os nad ydych yn gwybod neu nad ydych yn siŵr, mae angen trefnu sgan uwchsain brys.
- Os yw'r plentyn yn gofyn am derfyniad meddygol, a all lyncu pils (nid oes modd rhoi un o'r pils ar ffurf hylif nac mewn ffyrdd eraill)? Os na all, yna dylid cynghori'r plentyn i gael terfyniad llawfeddygol. Rhaid i'r darparwr erthyliadau ystyried opsiynau ar gyfer paratoi gwddf y groth os na ellir goddef cymryd meddyginiaeth drwy'r geg.

- **Mewn terfyniad meddygol, bydd y plentyn yn profi cryn dipyn o boen a gwaedu. Bydd yn ymwybodol o'r broses ac efallai y bydd yn gweld cynhyrchion cenhedlu wrth iddynt eu pasio. A fydd y broses hon yn achosi gofid anghymesur i'r plentyn a/neu'r gofalwr, naill ai gartref neu yn yr ysbyty?**
- Ystyriwch a yw'r plentyn yn debygol o gymryd yr ail ddos o bils yn achos terfyniad meddygol. Os yw hyn yn annhebyg, efallai y bydd risgiau'n gysylltiedig â chymryd y dos cyntaf yn unig. Gall terfyniad llawfeddygol fod yn opsiwn mwy diogel os yw hyn yn bryder.
- A roddwyd cydsyniad, neu a yw'r heddlu wedi ceisio gorchymyn llys, i gasglu cynhyrchion cenhedlu ar gyfer dadansoddiad DNA? Os felly, mae angen ystyried mecanwaith y gadwyn dystiolaeth sydd ei angen i gasglu'r dystiolaeth hon mewn modd priodol.
- Os nad oes angen casglu cynhyrchion cenhedlu, a fyddai amgylchedd y cartref yn ddigon diogel a chefnogol i alluogi'r plentyn i gael terfyniad meddygol gartref, gan ystyried y boen a'r golled gwaed a brofir? Os na fyddai, yna argymhellir terfyniad llawfeddygol neu drefniadau amgen ar gyfer terfyniad meddygol. **Nid yw darparwyr erthyliad y tu allan i'r GIG yn gallu hwyluso terfyniadau meddygol ar gyfer cleifion mewnol. Byddai angen trefnu'r rhain ar y cyd ag adran gynaecoleg leol y Bwrdd Iechyd lleol.**
- A yw beichiogrwydd neu derfyniad yn debygol o beri unrhyw risgiau iechyd ychwanegol? Beth mae angen ei roi ar waith i fynd i'r afael â'r rhain?
- A oes angen unrhyw addasiadau ychwanegol i gynorthwyo'r plentyn i gael terfyniad? e.e. a oes gan y plentyn anabledd corfforol sy'n golygu bod angen defnyddio teclyn codi neu offer arbenigol arall. Os na all darparwyr erthyliad y tu allan i'r GIG gyflawni'r rhain, a oes gweithwyr proffesiynol eraill a allai gefnogi darparwyr erthyliad y tu allan i'r GIG, neu a oes angen rheoli'r terfyniad o fewn ysbyty?

## Arferion Da:

- Dylid cynnal yr ymgynghoriad cychwynnol a'r ymgynghoriad dilynol ar gyfer plentyn o dan 13 oed wyneb yn wyneb mewn clinig bob amser, ac nid ar-lein, ac yn ddelfrydol gyda'r un unigolyn.
- **Os na chaiff plant eu dwyn i ymgynghoriadau dilynol, yna dylid cysylltu â'r teulu mewn modd amserol i archwilio'r rhesymau dros hyn, gan gofio pwysigrwydd hanfodol gwneud penderfyniadau a gweithredu'n gyflym yn yr achosion hyn. Os na ellir cysylltu â'r teulu, dylid gwneud ail atgyfeiriad (DTR) i'r awdurdod lleol cyn pen 24 awr.**
- Mae tlodi mislif yn broblem sylweddol i rai teuluoedd. A oes gan y plentyn fynediad at gynhyrchion mislif, papur toiled, poenladdwyr syml a chymorth arall fel byrbrydau, diodydd llawn siwgr, potel ddŵr poeth a chludiant i'r ysbyty os oes angen? A fydd yn cael y cymorth emosiynol sydd ei angen arno i fynd trwy'r terfyniad? Os na, a ellir darparu hyn mewn ffordd arall?
- Dylai pob plentyn gael cynnig cyfle i gymryd rhan mewn cwnsela ynghylch ei ddewisiadau am y beichiogrwydd cyn y terfyniad (ac os oes angen, ar ei ôl), a dylid ei annog i wneud hynny. Yn ogystal, dylid ystyried atgyfeirio'r plentyn am gwnsela mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol.
- Dylid cynnal trafodaeth amlasiantaethol i ystyried a ddylid darparu dulliau atal cenhedlu priodol, yn ddelfrydol dulliau atal cenhedlu gwrthdroadwy hir-weithredol (LARC), yn ogystal â chyngor ar ryw diogel. Dylid hefyd ystyried sut y gellir gwneud hyn mewn ffordd sy'n osgoi ail-drawmateiddio'r plentyn ac sy'n sicrhau bod lles pennaf y plentyn bob amser wrth wraidd unrhyw benderfyniadau.

- Dylid cynnig prawf sgrinio i bob plentyn am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STIs).
- Mae'n bwysig defnyddio dull sy'n ystyriol o drawma wrth gefnogi'r plentyn ac ystyried yr iaith a ddefnyddir er mwyn osgoi bod yn feirniadol.
- Dylid cynnal yr holl archwiliadau a thriniaethau personol gyda hebrwngwr cymwys – nid yw'n dderbyniol defnyddio rhiant, gofalwr neu unigolyn arall sy'n dod gyda'r plentyn fel hebrwngwr.
- Dylid anfon crynodeb o'r terfyniad, unrhyw ddulliau atal cenhedlu, profion sgrinio a thriniaethau ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol at y meddyg teulu, a fydd yn gallu darparu cymorth parhaus i'r plentyn a'r teulu.

Gellir gwneud **Erthyliad Meddygol Cynnar (EMA)** hyd at 9 wythnos a 6 diwrnod o feichiogrwydd. Fodd bynnag, rhaid ystyried y broses hon yng nghyd-destun y plentyn. Mae'n bosib y gallai fod newydd ddechrau cael mislif, ac nad oes ganddi fawr o brofiad o boen mislif. Caiff y boen sy'n gysylltiedig ag erthyliad meddygol cynnar ei chyffelybu â phoen cyfangiadau yn ystod y cyfnod esgor, yn ogystal ag ystyried y golled gwaed fawr. Rhaid ystyried canlyniadau seicolegol profi hyn yn erbyn y risgiau corfforol sy'n gysylltiedig â therfyniad llawfeddygol o dan Anesthetig Cyffredinol.

Bydd **terfyniad llawfeddygol** yn gofyn am lawfeddyg; mae'n debyg y bydd angen dyrannu contract ymweld i'r llawfeddyg er mwyn iddo ddarparu gofal yn nes at y cartref. Mae'r atgyfeiriad cychwynnol ar gyfer terfyniad yn mynd i BPAS. Os na fydd un o lawfeddygon y GIG yn y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni erthyliad llawfeddygol, efallai y bydd BPAS yn gallu darparu llawfeddyg i gyflawni'r driniaeth. Mae hyn yn gofyn am drefnu contract anrhydeddus ar frys a chydgysylltu rhwng y Bwrdd Iechyd a BPAS i gadarnhau amodau cyn-gyflogaeth. Mae hyn yn debyg i'r trefniadau a wneir ar gyfer locwm allanol brys. Bydd angen i un o obstetryddion/gynaecolegwyr ymgynghorol y GIG fod yn bresennol yn ystod y driniaeth hefyd, i gefnogi'r llawfeddyg sy'n ymweld. Gyda newidiadau i hyfforddiant a staffio, efallai y bydd y trefniadau hyn yn newid. Bydd y Cyfarwyddwr Clinigol Obstetreg a Gynecoleg yn gallu rhoi cyngor.

Dylid trefnu **cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol (MDT)** yn y bwrdd iechyd, ar ôl i benderfyniad gael ei wneud i gael terfyniad, gyda chynrychiolaeth o'r adrannau priodol i benderfynu ar y lleoliad gorau a'r cymorth sydd ei angen gan staff.

## Casglu Tystiolaeth Fforensig

### A oes angen casglu tystiolaeth fforensig, naill ai yn ystod archwiliad meddygol cam-drin plant yn rhywiol neu drwy gasglu cynhyrchion cenhedlu? Sut y bydd hyn yn cael ei drefnu?

- Dim ond os bu ymosodiad rhywiol yn ystod y 7 diwrnod blaenorol y bydd SARC yn cymryd swabiau fforensig.
- Gellir cadw gweddillion ffetws yn dilyn erthyliad, ond dim ond gyda chydsyniad neu orchymyn llys. Dylai'r gwaith o reoli'r cynhyrchion fod yn unol â chanllawiau lleol.
- Bydd angen i'r heddlu ddarparu cynhwysydd addas i gadw'r cynhyrchion cenhedlu (POC) ynddo; dylai cynhwysydd o'r fath fod yn blastig afloyw (nid gwydr, a all dorri os caiff ei rewi), heb gynnwys unrhyw gadwolyn, a heb fformalin yn benodol. Ar ôl cael y cynhyrchion cenhedlu, dylid eu rhoi yn y cynhwysydd â label priodol a rhoi popeth mewn bag atal ymyrraeth, yna ei rewi. Rhaid i'r cynhyrchion cenhedlu aros wedi'u rhewi tra byddant yn cael eu storio a'u cludo i'r heddlu.

**Beichiogrwydd 9/10 wythnos o hyd:**
Yn ystod camau cynnar beichiogrwydd, ychydig iawn o feinwe ffetysol sydd ar gael i'w ddadansoddi o gymharu â faint y meinwe mamol sydd i'w gael. Felly, er nad yw'n amhosibl, mae'n llai tebygol o lawer y bydd DNA sy'n tarddu o'r ffetws yn cael ei ganfod yn llwyddiannus.

**Rhwng 9/10-15 wythnos o feichiogrwydd:**
O 9/10 wythnos ymlaen, mae'r ffetws yn fwy ac yn haws i'w adnabod. O ganlyniad, mae'r tebygolrwydd o ganfod DNA'r ffetws yn llwyddiannus yn cynyddu.

**Yn achos beichiogrwydd dros 15 wythnos o hyd:**
Erbyn wythnos 15, mae datblygiad y ffetws wedi cyrraedd cam lle nad yw bellach yn briodol cyflwyno cynhyrchion cyfan cenhedlu/ffetws i'w dadansoddi. Felly, ar gyfer terfyniadau a gynhelir ar 16 wythnos ac uwch, dylai unigolyn priodol (naill ai meddyg neu Batholegydd) gymryd samplau ar gyfer dadansoddiad DNA. Mae'n debygol mai rhan o feinwe'r ffetws fydd hyn (e.e. aelod, cyhyr, gwaed o'r galon), yn hytrach na'r ffetws cyfan. Mae'n hanfodol bod yr heddlu a/neu'r clinigwyr yn trafod ac yn cadarnhau gyda'r tîm fforensig beth yn union sydd ei angen. Ni ddylid gwaredu unrhyw feinwe ffetysol sy'n weddill nes bod y tîm fforensig wedi cadarnhau bod y dadansoddiad DNA wedi bod yn llwyddiannus. Dylai proffilio DNA fod yn llwyddiannus bron bob amser, oni bai bod y sampl wedi dirywio. Os bydd cynhyrchion cyflawn cenhedlu sydd wedi cyrraedd 15 wythnos o ddatblygiad neu'n hwyrach yn dod i law'r labordy, cânt eu gwrthod a'u dychwelyd i'r heddlu a'u cyflwynodd. Ni chynhelir unrhyw archwiliad na phrofion, ac argymhellir y dylai unigolion priodol yn yr ysbyty gymryd samplau i'w dadansoddi. Bydd angen rhoi gwybod i'r clinigydd sy'n cyflawni'r terfyniad am hyn.

- Lle cynhelir terfyniad llawfeddygol, mae'n bwysig bod y tîm llawfeddygol yn ymwybodol bod angen cynhyrchion y cenhedlu ar yr Heddlu. Fel y nodwyd uchod, ceisiwch gadarnhad gan y tîm fforensig i sicrhau bod samplau cymesur yn cael eu cymryd.
- Samplau cyfeirio: Yn ogystal â'r ffetws a sampl gan y tad honedig, argymhellir yn gryf fod sampl cyfeirio o DNA yn cael ei gymryd gan y fam, lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn rhan o'r ymchwiliadau fforensig, ac felly dylai'r heddlu gael cydsyniad i wneud hyn. Y rheswm dros gymryd y sampl yw oherwydd os na ellir eithrio'r tad tybiedig, bydd cryfder unrhyw dystiolaeth ystadegol ddilynol a gynhyrchir i gefnogi'r canfyddiad hwn yn fwy arwyddocaol os bydd proffil DNA cyfeirio gan y fam ar gael. Ar ben hynny, yn absenoldeb proffil DNA cyfeirio gan y fam, gwneir tybiaethau mai cydrannau DNA cyfatebol rhwng proffil DNA'r ffetws a'r tad honedig yw cydrannau DNA tadol y ffetws. Os deuai'n hysbys bod rhai o'r cydrannau DNA hyn wedi'u hetifeddu gan y fam mewn gwirionedd, yna mae'n ddigon bosib y caiff y tad honedig ei ddiystyru fel tad y ffetws.
- Mewn rhai achosion, efallai na fydd y plentyn yn gallu cefnogi ymchwiliad gan yr heddlu (gan dybio bod angen un), neu'n fodlon gwneud hynny. Efallai y bydd angen trafodaeth amlddisgyblaethol yn ystod neu ar ôl trafodaeth strategaeth ynghylch buddiannau gorau'r plentyn a budd y cyhoedd wrth gynnal ymchwiliad troseddol. Efallai y bydd angen gorchymyn llys i atafaelu cynhyrchion cenhedlu fel tystiolaeth os na all rhieni'r plentyn gydsynio neu os ydynt yn gwrthod cydsynio.

**Yn ogystal â'r ffetws a sampl gan y tad honedig, argymhellir yn gryf fod yr heddlu'n cymryd sampl cyfeirio o DNA gan y fam, lle bynnag y bo modd.**

### Ystyriaethau Staffio

- Efallai na fydd pob aelod o staff yn fodlon cymryd rhan ymarferol wrth ddarparu terfyniad o ganlyniad i wrthwynebiad cydwybodol. Er ei bod hi'n bwysig parchu'r farn hon, ni ddylai ymyrryd â rhoi gofal priodol i'r plentyn beichiog.
- Pan fo gan aelod o staff wrthwynebiad i derfyniad, dylai egluro hyn i'w reolwr llinell cyn gynted â phosibl. Dylid trosglwyddo gofal y plentyn i aelod arall o staff sy'n gyfforddus wrth gefnogi'r plentyn drwy'r broses derfynu.
- Mae cefnogi plentyn sydd wedi cael ei gam-drin yn rhywiol yn heriol yn emosiynol a gall sbarduno atgofion, meddyliau a theimladau annymunol i rai unigolion. Dylid cefnogi staff drwy gydol y broses gyda goruchwyliaeth reolaidd a darparu mynediad at gymorth ychwanegol os oes ei angen arnynt. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo'r achos i weithiwr proffesiynol arall, er y dylai'r un aelod o staff ddarparu parhad gofal i'r plentyn lle bynnag y bo modd.
- Mae trafodaeth ôl-drafod ar ôl y digwyddiad yn ddefnyddiol i gefnogi staff a allai fod wedi cael eu trawmateiddio gan y profiad o gefnogi'r plentyn beichiog. Mae hefyd yn ffordd ddefnyddiol o ddysgu a fydd yn llywio gwelliannau i'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol.
- Ystyried trefnu i staff sydd fel arfer yn gweithio gyda phlant adleoli gyda'r plentyn beichiog e.e. nyrs pediatrig ar ward gynecoleg, fel y bo'n briodol.

# 8. Parhau â'r Beichiogrwydd

Rhaid cynnig cwnsela effeithiol i'r plentyn beichiog ynghylch y penderfyniad. Dylid hefyd roi ystyriaeth glir i'w gymhwysedd i wneud y penderfyniad; bydd hyn yn gofyn am asesiad cymhwysedd Gillick oherwydd oedran (gweler Atodiad 2). Dylid ystyried hefyd y cymorth y mae gofalwyr y plentyn beichiog yn ei gynnig os ydynt eisoes ar gynllun amddiffyn plant.
**Pan na all plentyn a rhiant gydsynio neu pan fo pryderon nad yw'r rhiant yn cynghori'r plentyn er ei les pennaf, efallai y bydd angen troi at adran deulu'r uchel lys i wneud penderfyniad terfynol (gweler Adran 6).**

### Arfer Gorau

- Dylai'r Tîm Menywod Agored i Niwed neu fydwraig gymunedol fod yn gyfrifol am ofal arferol, gyda rhaglen gymorth uwch ar waith.
- Dylai gofal gael ei arwain gan ymgynghorydd gyda bydwraig a enwir ar gyfer diogelu a dylai Meddyg (neu Bediatregydd arall) a enwir ar gyfer Diogelu fod yn bresennol ym mhob apwyntiad at ddibenion arferion gorau ac i flaenoriaethu parhad gofal.
- Dylid trefnu cyfarfodydd cynllunio o amgylch addysg y plentyn beichiog, a hynny cyn ac ar ôl yr enedigaeth.
- Dylid cynnig addysg cyn geni ymarferol 1:1 i'r teulu yn y cartref.
- Profion sgrinio am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol: yn ogystal â'r prawf sgrinio cychwynnol, rhaid cofio bod yn rhaid cynnal ail wiriad am clamydia a phrawf mwyhau asid niwclëig (NAAT) am gonorrhoea fwy na phythefnos ar ôl yr adeg gyswllt ddiwethaf. Rhaid cynnal trydydd gwiriad hefyd 12 wythnos ar ôl yr adeg gyswllt ddiwethaf, i brofi am feirysau a gludir yn y gwaed, a hynny er mwyn sicrhau y cymerir y cyfnod cudd i ystyriaeth.
- Dylid cyfeirio at Ganllawiau NICE ar gyfer Gofal Cynenedigol NG201 fel gofyniad sylfaenol i sicrhau rheolaeth glinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

## Ystyried Mabwysiadu:

- Rhaid cynnig cwnsela effeithiol i'r plentyn beichiog mewn perthynas â'r penderfyniad. Dylid rhoi ystyriaeth glir i'w gymhwysedd i wneud y penderfyniad; bydd hyn yn gofyn am asesiad cymhwysedd Gillick oherwydd ei oedran. Dylid hefyd ystyried y cymorth y mae gofalwyr y plentyn beichiog yn ei gynnig os ydynt eisoes ar gynllun amddiffyn plant, a phwy sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn beichiog.
- Cysylltwch â Gwasanaethau Cymdeithasol Plant. Dylent geisio sicrhau, yn dilyn cais i ildio plentyn, y dylid trosglwyddo'r atgyfeiriad i'r tîm priodol sydd yn y sefyllfa orau i weithio gyda'r plentyn beichiog a datblygu'r cynllun ar gyfer y babi sydd heb ei eni/newydd-anedig cyn gynted â phosibl.
- Rhaid i wasanaethau mamolaeth sicrhau bod protocolau a phrosesau ar waith i fenywod a'u babanod gael parhad gofal.
- Ystyriwch leoliad y plentyn beichiog: pa ward sy'n briodol a pha staff sy'n gofalu, gan gofio bob amser mai plentyn yw'r claf beichiog. Ystyriwch ble y rhoddir gofal ôl-enedigol i gleifion mewnol h.y. nid ar y ward ôl-enedigol gyffredinol o amgylch mamau a babanod newydd-anedig eraill.
- Ystyriwch y teulu ehangach, yr hyn maen nhw'n ei wybod, a sut y gallant gynnig cymorth.
- Ystyriwch gynllunio'n fanwl ar gyfer yr enedigaeth: y dull geni; analgesia yn ystod y cyfnod esgor; pwy fydd yn cefnogi'r plentyn beichiog yn ystod yr enedigaeth; a fydd y plentyn eisiau gweld neu ddal y babi; ac atal cenhedlu.
- Ystyriwch pwy fydd yn gofalu am y babi ar y ward os nad yw'r fam eni eisiau gwneud hynny.
- Ystyriwch sut mae'r fam eisiau i'r babi gael ei fwydo.
- Ystyriwch/cynigiwch feddyginiaeth atal llaeth y fron, yn unol â phrotocolau lleol.
- Cynigiwch gofroddion/cardiau ar gyfer y cot/tagiau enw/lluniau/olion llaw a/neu olion traed, ydy'r plentyn eisiau rhoi unrhyw beth i'r babi? Blanced/tegan meddal arbennig ac ati. Bydd tîm mabwysiadu'r awdurdod lleol hefyd yn cynnig cymorth gyda gwaith stori bywyd ar gyfer y babi.
- Yn ystod trafodaethau amlasiantaethol, dylid ystyried cynnig cyfle i'r fam eni gyfarfod â'r unigolyn y bydd y babi yn cael ei leoli gydag ef.
- Ystyriwch yr effaith ar iechyd meddwl plentyn beichiog, gan ei atgyfeirio'n unol â hynny at wasanaethau priodol.
- Cydnabyddwch alar/colled a hunaniaeth mamolaeth y plentyn yn ystod y broses.
- **Eiriolwch dros ddymuniadau'r fam eni drwy gydol gofal cynenedigol, gofal yn ystod y cyfnod esgor a gofal ôl-enedigol.**
- Trefnwch Gyfarfod Cynllunio Rhyddhau.
- Darpariaeth gofal mamolaeth ôl-enedigol yn unol â chais y fam.
- Dylid sicrhau parhad o ran gofalwyr ôl-enedigol lle bo modd.
- Mater i'r Awdurdod Lleol yw ystyried dymuniadau'r tad geni os yw'n briodol/berthnasol, ac a yw'r tad geni yn bwriadu cael cyfrifoldeb rhiant, gan amlinellu ei rôl a'i hawliau posibl.
- Gellir dychwelyd y plentyn i ofal y fam eni unrhyw bryd o fewn y 6 wythnos ar ôl yr enedigaeth ac mae deddfwriaeth yn caniatáu'r cyfnod hwn i rieni newid eu meddyliau cyn i'r awdurdod lleol geisio gorchmynion cyfreithiol.
- Dylai tîm yr Awdurdod Lleol perthnasol gynnig cwnsela penodol mewn perthynas â mabwysiadu, a hynny cyn ac ar ôl i'r plentyn gael ei eni.

# 9. Ôl-ofal

Ystyriwch yr angen am ddulliau atal cenhedlu yn y dyfodol. Os ystyrir bod angen i'r plentyn gael dull atal cenhedlu parhaus, ystyriwch osod hwn adeg y terfyniad llawfeddygol. Os yw'r plentyn yn esgor y babi ac ystyriwyd bod angen dull atal cenhedlu parhaus arno, gyda chydsyniad y plentyn, dylid gosod hwn cyn ei ryddhau.

- **Mae cymorth amlasiantaethol barhaus yn hanfodol; dylid trefnu cyfarfod amlasiantaethol diogelu cyn pen wythnos ar ôl terfynu, a hynny i drafod y mesurau diogelwch sydd eu hangen i sicrhau bod y risg o dreisio yn y dyfodol yn cael ei lleihau gymaint ag y bo modd, ac yn achos genedigaeth, dylid trefnu cyfarfod cynllunio rhyddhau.**
- Dylid gwneud atgyfeiriad am gymorth seicolegol therapiwtig.
- Dylid cynnig cwnsela ar ôl yr erthyliad.
- Os bydd genedigaeth, dylid darparu gofal ôl-enedigol uwch gan fydwragedd ac ymwelwyr iechyd.

# 10. Gofynion hyfforddiant / cymhwysedd

Dylai hyfforddiant diogelu staff iechyd fod yn gyfredol fel yr amlinellir yn y ddogfen Rhyng-golegol (2025) Diogelu plant a phobl ifanc & plant a phobl ifanc mewn gofal: Cymwyseddau ar gyfer staff iechyd a gofal: [www.rcn.org.uk/professional-development](http://www.rcn.org.uk/professional-development)

# 11. Monitro Cydymffurfiaeth

| Elfen o'r protocol i'w monitro | Y protocol cyfan |
|---|---|
| Adran | Pob un |
| Dull Monitro – Ffynhonnell Wybodaeth (e.e. archwiliad) / mesur / safon perfformiad | Am ei bod yn debygol y bydd y protocol yn cael ei ddefnyddio'n anaml iawn, dylid cynnal sesiwn ôl-drafod ar ôl pob terfyniad ar gyfer plentyn o dan 13 oed gyda chynrychiolwyr o'r SSCP a'r BPAS.<br><br>Os yw'n bosibl, dylid ceisio adborth gan y plentyn a'r teulu. |
| Arweinydd eitem | Meddyg Dynodedig GIG Cymru ar gyfer Diogelu Plant, y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol. |
| Amlder monitro / amlder adrodd a llwybr | Cyn pen 2 fis ar ôl i derfyniad ddigwydd. |
| Trefniadau ar gyfer ymateb i ddiffygion ac olrhain cyflawniad camau gweithredu a gynlluniwyd | Bydd adolygiad o'r hyn a ddysgwyd ar ôl pob defnydd o'r protocol hwn yn llywio datblygiad y gwasanaeth a'r protocol hwn yn y dyfodol. |

# 12. Gwybodaeth Ddefnyddiol

- Offeryn Sgrinio Camfanteisio ar Blant (CSERQ) – **Microsoft Word – Papur a chanllawiau CSERQ**
- Pecyn Cymorth Cryfderau ac Anghenion y Teulu – **Family-Strengths-and-Needs-Toolkit-November-2024.pdf**
- Canllawiau Cenedlaethol GIG Cymru ar gyfer Plentyn nas dygwyd **Canllawiau ynghylch Plant nas dygwyd – Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- Dull sy'n Ystyriol o Drawma ar gyfer Archwiliadau Personol a Hebryngwyr – **Intimate-examinations-and-chaperones_pdf-58835231.pdf**
- Protocol Plant sy'n cael eu Hildio Cymru **https://nasapi.kinsta.cloud/wp-content/uploads/2023/10/RELINQUISHED-CHILD-PROTOCOL-FINAL-OCTOBER-2021.pdf**

# Atodiad 1: Siart Lif y Protocol

**Mae plentyn o dan 13 oed yn datgelu I aelod o staff y gallai fod yn feichiog**

**Mynnwch air â'r plentyn ar ei ben ei hun**

Gwrandewch ar y plentyn a thawelu ei feddwl. Mae cyfrifoldeb cyfreithiol i roi gwybod am bryderon !

**Sicrhewch fod atgyfeiriad diogelu yn cael ei wneud i'r Lleol ar ôl cadarnhau'r ffeithiau fel y'u disgrifiwyd gan y plentyn. Dylai hyn gynnwys:**

- Pwy sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol gyda'r plentyn
- Pryd a ble y digwyddodd
- Pam mae'r plentyn yn Meddwl ei fod yn feichiog
- Oes ganddo unrhyw anafiadau neu ydy hi mewn poen
- Pwy sydd â chyfrifoldeb gofalu am y plentyn?

**Ystyriwch a oes risg uniongyrchol o niwed neu gam-drin i'r plentyn, plant eraill neu bobl eraill yn y teulu.**

**OES** → Ffoniwch yr heddlu ar 999

**NAC OES** ↓

**9am – 5pm**
Cysylltwch â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ystyriwch ffonio'r heddlu, cysylltwch â'r pediatregydd ar alwad a'r arweinydd diogelu.

**Y Tu Allan i Oriau**
Ffoniwch y tîm dyletswydd brys, ystyriwch ffonio'r heddlu, cysylltwch â'r pediatregydd ar alwad.

Ewch i gyfarfod strategaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth briodol mewn perthynas â diogelu i gytuno ar gynllun ar gyfer diogelu'r plentyn a'i ofal meddygol (Trowch at dudalennau 5 a 6 yn y canllawiau Beichiogrwydd mewn Plentyn o dan 13 oed).

! Dylid ystyried Archwiliad Meddygol Diogelu Plant a / neu Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCs)

**PENDERFYNIAD YNGHYLCH Y BEICHIOGRWYDD**

Dylid ystyried gallu'r plentyn i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ac ystyried ceisio cyngor cyfreithiol !

Parhau â'r beichiogrwydd
- Cadw'r babi
- Dewis mabwysiadu

Y fydwraig Diogelu ddylai fod y cyswllt pwrpasol drwy gydol y beichiogrwydd gyda chymorth yr Obstetrydd Ymgynghorol.

Terfynu'r beichiogrwydd

Cysylltwch â'r Arweinydd Diogelu, y meddyg a enwir ar gyfer diogelu a'r meddyg arweiniolar gyfer iechyd atgenhedlu rhywiol.

# Atodiad 2: Cydsyniad

## Beth yw cydsyniad?

Rhoddir cydsyniad ar sail gwybodaeth gan yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant. Fodd bynnag, gall y plentyn roi cydsyniad os yw'n gallu deall y sefyllfa, y canlyniadau posibl, y dewisiadau a'u goblygiadau yn llawn ac os ystyrir ei bod yn gymwys i gydsynio.

## Canllawiau Fraser/Gillick ar gyfer plant/pobl ifanc o dan 16 oed:

- Ydy hi, er ei bod hi o dan un ar bymtheg oed, yn deall y cyngor a roddir gan y gweithwyr iechyd proffesiynol?
- A yw'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi trafod cynnwys rhieni'r plentyn, ond wedi methu perswadio'r unigolyn i hysbysu ei rieni?
- A fydd iechyd meddyliol neu gorfforol yr unigolyn yn dioddef o bosibl os na roddir triniaeth?
- A yw'r driniaeth er ei lles pennaf, a hynny gyda neu heb gynnwys ei rhieni?

## Cyfrifoldeb Rhiant

| Pwy sydd â chyfrifoldeb rhiant: | |
|---|---|
| **Y fam** | Bob amser. |
| **Tad Priod** | O adeg priodas (cyn neu ar ôl yr enedigaeth). |
| **Tad Di-briod** | Ers mis Rhagfyr 2003 – os yw wedi'i enwi ar y dystysgrif geni, neu, os nad yw ar y dystysgrif geni, gall ei gael drwy'r llys |
| **Perthnasau** | Dim ond os oes ganddynt Orchymyn Preswyliad/Trefniadau Plentyn ar gyfer y plentyn. |
| **Awdurdod Lleol** | Os oes ganddynt Orchymyn Amddiffyn Brys neu Orchymyn Gofal (rhaid ymgynghori â nhw yn y ddau achos). |
| **Eraill** | Mabwysiadu – unwaith y bydd gorchymyn mabwysiadu wedi'i roi, y rhieni mabwysiadol fydd rhieni cyfreithiol y plentyn ac mae'r rhieni geni yn colli cyfrifoldeb rhieni. |

## Gorchmynion Llys

Mae **Pwerau Diogelu'r Heddlu** yn para hyd at 72 awr. Yn caniatáu i'r plentyn gael ei symud i le diogel.

Mae **Gorchymyn Amddiffyn Brys** yn para hyd at 8 diwrnod. Mae gan yr Awdurdod Lleol Gyfrifoldeb Rhiant am hyd y gorchymyn, ond rhaid nodi cyfrifoldeb rhiant oherwydd ar gyfer archwiliad meddygol diogelu plant yn y gorchymyn.

Mae **Gorchymyn Gofal** yn para tan ben-blwydd y plentyn yn ddeunaw oed neu nes i'r gorchymyn gael ei ddiddymu gan y llys. Yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r Awdurdod Lleol yn ogystal â'r rhieni.

Mae **Gorchymyn Preswylio/Gwarcheidiaeth Arbennig** yn nodi ble mae plentyn i fyw. Mae hefyd yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r unigolyn y gwneir y gorchymyn iddo.

**Plant sy'n destun achos llys:** Pan fo'r plentyn eisoes yn destun achos mewn llys, mae angen caniatâd yr un Llys. Os yw'r plentyn yn destun **Gorchymyn Gofal,** gall Pennaeth Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol roi caniatâd.

# Atodiad 3: Enghraifft o Arfer Dda

Mae Jig-so yn dîm amlasiantaethol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, a grëwyd yn 2016 i ddarparu cymorth dwys i bob beichiogrwydd ymysg plant, beichiogrwydd ymysg y rhai yn eu harddegau a mamau sy'n agored i niwed. Mae'r tîm yn cynnwys Bydwragedd Arbenigol, Nyrsys Meithrin a Gweithwyr Rhianta sy'n darparu cymorth dwys, o adeg yr apwyntiad cyntaf gyda bydwraig nes bod y babi yn ddwy oed (os oes angen).

Daw Bydwragedd Jig-so yn Fydwraig Enwol y plentyn a byddant yn cymryd cyfrifoldeb am yr holl ofal clinigol gan wasanaethau bydwreigiaeth generig yn dilyn cofnodi'r beichiogrwydd. Maent yn cynnal pob apwyntiad yn y cartref ac yn croesawu aelodau o'r teulu estynedig i fod yn rhan o'r sesiwn a gyflwynir i rieni'r babi/babanod yn y groth. Mae'r sesiynau'n cynnwys: Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) a chyflwyno negeseuon Iechyd y Cyhoedd, Gro-brain a datblygiad y ffetws, bwydo babanod, esgor a genedigaeth, beth i'w ddisgwyl yn y cyfnod ôl-enedigol, atal cenhedlu, gofalu am y babi newydd-anedig (cysgu, ei ymolchi a'i drin yn ddiogel) ac anhwylderau cyffredin yn ystod plentyndod.

Mae Bydwragedd Jig-so hefyd yn mynd i apwyntiadau ag Ymgynghorwyr a sganiau uwchsain os hoffai'r unigolyn beichiog gael cymorth ychwanegol ar yr adegau hyn. Dim ond un Fydwraig Jig-so sydd wedi'i dyrannu i'r teulu bob amser. Mae hyn am fod parhad yn allweddol i ennyn ymddiriedaeth a chyflawni canlyniadau gwell, yn enwedig ym maes diogelu os yw'r teulu hefyd yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddiogelu'r babi ar ôl iddo gael ei eni, neu'r fam ifanc.

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales